Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Pennant

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Pennant yn un croesawgar a chyfeillgar. Mae'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol yn fawr ac yn falch iawn o fod yn rhan o'i chymuned. Maen nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn teimlo'n bryderus. Mae natur ofalgar y staff a'r parch y mae disgyblion yn dangos at ei gilydd, staff ac ymwelwyr yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol, sydd wedi'i seilio ar ddatblygu lles a chyfleoedd i ddisgyblion ffynnu. Mae'n arweinydd effeithiol sy'n uchel ei pharch gan yr holl randdeiliaid. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

O dan arweiniad gwybodus y pennaeth, mae'r staff yn darparu cwricwlwm sy'n galluogi disgyblion i gaffael y wybodaeth a'r medrau angenrheidiol i gefnogi eu gwaith. Mae'r iaith Gymraeg wrth galon yr ysgol ac mae balchder y disgyblion at y Gymraeg yn amlwg. Maent yn defnyddio'r iaith yn gwbl naturiol yn ystod y dydd. Yn ogystal, mae defnydd y disgyblion o fedrau digidol o oed cynnar yn gryfder. Trwy brofiadau eang, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o hanes a diwylliant eu milltir sgwâr, y gymuned ehangach a Chymru. Er hyn, nid yw'r athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am grefyddau amrywiol yn ddigon aml.

Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth briodol o anghenion y disgyblion ac yn cynllunio'n bwrpasol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn a dangosant fwynhad yn eu dysgu. Maent yn cydweithio'n dda ac yn gefnogol iawn o'i gilydd tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfle i'r disgyblion adeiladu ar eu medrau dysgu annibynnol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Datblygu medrau annibynnol disgyblion**

**A2 Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o grefyddau gwahanol**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.